**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 22 Mai 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Mehefin 2018** |

## PWNC

Eitem 7:TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

## PENDERFYNIAD

Nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion yn ystod 2017/18

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, a cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan. Adroddwyd ar sefyllfa gwireddu arbedion hyd at 31 Mawrth 2018, gan nodi roedd cynnydd boddhaol ar draws y Cyngor i wireddu tua £6 miliwn o arbedion yn 2017/18.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd hefyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad